Cofnodion Cyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd yn Neuadd Lisburne, Llanafan ar Nos Lun 15fed Ionawr, 2018 am 7.30 y.h.

Presennol:
Cyng. Hefin M. Evans (Cadeirydd)

Cyng. P. Bonner	**Cyng.T.A.G. Davies**	**Cyng. A. Evans**
Cyng. E. Lewis	**Cyng. L.L. Owen**	**Cyng. C. Lloyd-Morgan**
Cyng. M. Davies		

Ymddiheuriadau
Cyng. Sh. Edwards, Cyng. P. Davies, Cyng. J. George.

Goryrru ar y B4340
Ar gyfer yr eitem gyntaf croesawyd preswylwyr tai o amgylch Bont Llanafan ynghyd â chynrychiolaeth o Gyngor Cymuned Ystrad Meurig. Yn bresennol hefyd roedd swyddog o'r Brigâd Dân. Y preswylwyr lleol wnaeth cais i ymuno gyda'r Cyngor Bro i drafod y sefyllfa yn dilyn nifer o ddamweiniau yn yr ardal yn ddiweddar.

Natur y drafodaeth oedd tynnu sylw'r Cynghorwyr Cymuned at y goryrru sy'n digwydd ar y B4340 yn gyffredinol ond yn enwedig ar y darn ffordd yn agos at Bont Llanafan, heibio Dolau Afon ac allan i Ystrad Meurig. Mae nifer o ddamweiniau difrifol wedi digwydd yn ddiweddar ar y darn yma o'r ffordd gan achosi niwed i eiddo a'r pryder y collir bywyd cyn bo hir. Nid oes arwyddion i ddynodi perygl o gornelu ar y ffordd. Yn ystod tywydd garw mae dwr glaw yn cronni ar y ffordd sy'n achosi llifogydd ac yna adeg tywydd rhewllid mae'r ffordd yn llithrig ofnadwy sy'n gwaethygu'r sefyllfa. Barn y preswylwyr yw bod angen gostyngiad cyflymder yno a gofynnir i'r Cynghorwyr Cymuned eu cefnogi yn eu cais. Yn dilyn trafodaeth faith cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu gyda swyddogion Cyngor Sir Ceredigion yn gofyn am leoli 'shevrons' mewn mannau penodol i ddynodi'r perygl a hefyd gofyn am gyfarfod safle gyda swyddogion y Cyngor Sir, cynrychiolwyr y Cyngor Cymuned a phreswylwyr lleol ynghyd â'r Heddlu a'r Frigâd Dân.

Materion Personol
Cydymdeimlwyd gyda'r Cyng. John George ar ei brofedigaeth o golli ei Fam yn ddiweddar.

Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf
Cadarnhawyd a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, 4ydd Rhagfyr, 2017 fel cofnod cywir
Cynigiwyd cywirdeb gan y Cyng. P. Bonner ac eiliwyd gan Cyng. A. Davies.

Materion yn Codi o'r Cofnodion

Asesiad Risg ac Asedau
Dim materion yn codi.

Carthffosiaeth Pentref Llanfihangel-y-Creuddyn
Cytunwyd i gadw'r eitem ar yr agenda hyd y derbynnir ymateb wrth Ddŵr Cymru i'r cais am system garthffosiaeth newydd drwy'r pentref.

Sefyllfa Band Eang o fewn yr Ardal
Dim diweddariad pendant ond deallir fod Bandllydan cyflym ar gael ar gyfer rhai tai yn Llanfihangel-y-Creuddyn, angen edrych mewn i hyn ac hefyd ymchwilio a yw'r Ysgol yn medru derbyn y gwasanaeth.

Materion angen sylw'r Cyngor Sir
Dŵr ger y Gors ar y ffordd C1052
Y sefyllfa'n parhau, gan gadw'r eitem ar yr agenda hyd fydd y Cyngor Sir yn gweithredu. Cofnodir bod y sefyllfa'n gwaethygu gyda'r tarmac yn awr wedi golchi ffwrdd gan adael arwynebedd o gerrig.

Rhiw Dolgwybedig
Deallir bod Swyddog o'r Cyngor Sir yn mynd i edrych ar gael golwg ar y problemau ar y ffordd.

Goleuadau Stryd arfaethedig yn Llanafan
Adroddir bod lleoliad newydd wedi cynnig ar gyfer lleoli'r goleuadau stryd arfaethedig a bod Cyngor Sir Ceredigion a'r cyflenwr trydan yn hapus gyda'r lleoliad newydd ond bydd rhaid ymchwilio i'r mater o ganiatad i fynd ar y darn tir i ymchwilio'r goleuadau i'r dyfodol. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu gyda chyfreithiwr y Cyngor Cymuned i gael barn am y mater o ganiatâd ar eiddo.

Draeniau angen sylw o fewn yr ardal.
Nifer o ddraeniau yn yr ardal angen ei gwaghau gan gynnwys ger Minafon, Llanafan, benlon Sarnau ac hefyd adroddir fod yna broblem o ddŵr yn cronni rhwng Minffordd, Y Gors ac Abermagwr.
Rhai o'r tyllau mawr yn y ffordd ar Riw Hari, Llanfihangel-y-Creuddyn hefyd tyllau dipyn eu maint yn y ffordd wrth ymyl Blaenmagwr ac wrth ymyl Brynmagwr. Twll newydd yn y ffordd wedi ymddangos rhwng Cynnon Villa a Glanyrafon.

Mae yna ddrain dwr wedi cwympo i mewn yn agos i fynedfa Fferm Llwynbrain.

Arwyddion Ffyrdd
Mae peth amser wedi mynd ers i'r arwydd ffordd am Bentref Llanafan, ger Erw Lon ddiflannu a chytunwyd y byddai'r Aelod Lleol yn cael gair gydag Uwch Swyddogion y Cyngor Sir i fwrw'r trefniadau ymlaen i sicrhau arwydd newydd.

Llinellau Ffyrdd
Llinellau Ffyrdd yn parhau angen eu hail-baentio ym Mhentrefi'r ardal ond cofnodir bod y llinellau ffyrdd wedi paentio ar Bont Trawsgoed.

Cymdeithas Maes Chwarae Maesyfelin
Dim manylion pellach.

'**Glamping Pod'** Dim manylion pellach.

Sefyllfa isod yn parhau
Wrth ymuno gyda'r B4340 ar y gyffordd gyferbyn a Thafarn y Gors mae gwelededdyn anodd gan fod angen torri'r gwrych ar y chwith. Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir.

Mae yna ambell i goeden a changen yn gorwedd allan i'r ffordd ar y rhewl wrth fynd heibio Llannerch yr Oen.

Draeniau ar Rhiw Harri i lawr tuag at Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn wedi blocio gyda dŵr yn llifo i lawr i eiddo cyfagos.

Gyferbyn â Brynhyfryd yn Cnwch Coch mae'r tarmac wedi dod yn rhydd wrth ochr y ffordd ble mae dŵr glaw yn cronni bellach ac sydd angen sylw swyddogion y Cyngor Sir.

Wrth Cwmseiri ar y ffordd A4120 mae gwelededdyn anodd wrth droi a dod allan o'r gyffordd gan fod canghennau yn ymestyn allan i'r ffordd ar gornel.

Gwrych angen Torri ym Mhentref Llanafan

Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i roddi pwysau ar y gwaith gael eu gwneud fel mater o frys.

Planhigyn Japanese Knotweed
Y Clerc i ddilyn lan gyda'r Cyngor Sir i dynnu sylw at y broblem.

Twll yn y Ffordd wrth ymyl Dan y Wenallt.
Mae bach o weithredu wedi bod ar safle ond mae'r twll dwfn yn parhau i fod yn beryglus ac angen sylw brys.

Ffordd wedi suddo ym Mhentref Llanfihangel-y-Creuddyn wrth ymyl y fynwent newydd. Mae'r gwaith bellach wedi'i gwblhau.

Bin Halen
Parhau i ofyn i'r Cyngor Sir i leoli Bin Halen newydd ar waelod Rhiw Sarnau ac hefyd ger Penffordd, Y Gors, Aberystwyth gan fod dŵr sy'n cronni'n rhewi'n galed ac yn berygl i'r cyhoedd.

Ffordd o Lanfihangel-y-Creuddyn i Drisant
Adroddwyd bod sefyllfa'r ffordd yn dirywio gyda nifer o dyllau dwfn ar hyd y ffordd sydd angen sylw brys.

Coed angen sylw
Cyfeiriwyd at goed o fewn yr ardal sydd angen sylw i'w dymchwel cyn iddynt gwympo gan achosi niwed yn Llanafan, Coeden Dderw wedi trigo.

Sefyllfa'r Ffyrdd
Mae sefyllfa nifer o'r ffyrdd yn dirywio yn yr ardal sydd angen dod i sylw Cyngor Sir Ceredigion:
Dwr yn cronni ar draws y ffordd wrth anelu am Frynafan o Lanafan gan fod y ffosydd wedi gorlenwi.
Y ffordd o Lanafan i Troedrhiwfelen heibio'r Capel mae porfa'n tyfu ar ganol y ffordd sy'n mynd i niweidio'r ffordd.
Ffos wedi blocio rhwng Abertrinant a Llanfihangel-y-Creuddyn.

Problem Cŵn
Derbyniwyd gadarnhad gan Adran Amgylcheddol y Cyngor Sir yn cydnabod derbyn gohebiaeth am y problem cŵn o fewn yr ardal. Mae swyddogaeth y warden cŵn wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf ac nid oes swyddog yn mynd o amgylch ardaloedd yn chwilio am gŵn strae. Awgrymir yn yr ohebiaeth mai'r ffordd ymlaen pe byddid yn gweld cŵn yn crwydro ac yn peri gofid y dylid cysylltu gyda Chyngor Sir Ceredigion yn ystod oriau gwaith, yn anffodus nid oes gwasanaeth ar gael tu allan i oriau gwaith.

Materion Cyllidol
Yn dilyn trafodaethau ac ystyried y daflen gyllideb am y flwyddyn bresennol cytunwyd i gadw swm y praesept am y flwyddyn 2018/19 yn £4,500. Cynigiwyd y swm gan y Cyng. A. Davies ac eiliwyd gan Cyng. C. Lloyd-Morgan.
Cofnodir y tynnir £233.30 costau etholiadau 2017 allan o'r swm uchod cyn ei dderbyn.

Ar y 29ain o Dachwedd, 2017 roedd gan y Cyngor Bro mewn llaw £2015.70 yn y Cyfrif Cyfredol; £27.68 yng nghyfrif Maes Chwarae a £6,986.41 yn y Cyfrif Cadw. Cyflwynodd y Clerc fantolen ariannol o sefyllfa ariannol y Cyngor Bro a derbyniwyd y fantolen gan yr aelodau.

Mae amser wedi dod i edrych ar ddulliau diogelwch cyfrif banc y Cyngor Bro a'r angen i ddiweddaru mandad y banc. Cytunwyd i gadw'r trefniadau'r un peth sef dau aelod i arwyddo siec/taliadau. Bydd angen i bob aelod sydd am gael eu cynnwys fel llofnodwr i fynd a thystiolaeth o fanylion adnabod i Fanc y Cyngor Bro.

GOHEBIAETH
Gohebiaeth wrth Ben Lake, Aelod Cynulliad yn cyflwyno'i hun gyda phosteri i'w dodi ar hysbysfyrddau'r ardal.

Manylion wrth Gyngor Sir Ceredigion yn nodi'r canlynol:

bydd ffordd U1171 tu allan i Glasfryn, Llanfihangel-y-Creuddyn ar gau ar y 25ain o Ionawr oherwydd ailosod ceblau a pholion;
bydd y ffordd B4340 ger Y Gors ar gau yn ystod y dydd o'r 26ain Ionawr – 30ain Ionawr ar gyfer gwaith arwynebu.

Derbyniwyd cadarnhad bod Cyngor Bro Trawsgoed bellach yn berchen ar y ciosg ym Mrynafan a bod y Cadeirydd wedi arwyddo cytundeb i'r perwyl hyn a bod y ciosg wedi ychwanegu o dan Yswiriant y Cyngor Bro.

Gohebiaeth wrth Gyfarwyddwr Eisteddfod a'r Celfyddydau, Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 2018 yn tynnu sylw i'r ffaith y cynhelir Eisteddfod eleni yn ardal Brycheiniog a Maesyfed.

UNRHYW FATER ARALL
Dŵr yn cronni ger bont Rhydyfagwyr, angen agor ffos i'r dŵr arwynebedd y ffordd lifo i'r afon.

Rhiw Brynafan
Nodir bod dŵr glaw yn llifo allan o'r Goedwig ym Mhant yr hirion ac yn croni ar y ffordd. Gofynnir i'r Cyngor Sir ddod i agor ffos yno er mwyn i'r dwr lifo i ffwrdd.

Llwybr Cyhoeddus Awel y Bryn
Nodir bod y llwybr cyhoeddus yn beryglus mewn mannau a gofynnir i'r Cyngor Sir ddodi reil llaw ar y llwybr cyhoeddus o'r bont pren i'r ffordd i gynorthwyo cerddwyr.

Adnewyddu Ffens
Ar y B4340 wrth ymyl Pont Hopkins ar y llaw dde o'r fynedfa o Lanafan mae ffens wedi dymchwel sy'n golygu dibyn serth i'r afon pe byddai car neu gerddwyr yn digwydd mynd oddi ar y ffordd. Gofynnir i'r Cyngor Sir ddiogelu'r safle fel mater o frys.

Llwybr Beic
Adroddir bod yna dair coeden denau wedi cwympo ar draws y llwybr beic o Lanilar i Ystrad Meurig, tu ôl i Birchgrove a gofynnir i'r Cyngor Sir i'w gwaredu.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf
Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Lun 26ain o Chwefror, 2018 am 7.30 y.h. yn Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn.